


Parents Protect!

Gyda'n gilydd gallwn atal cam-drin plant yn rhywiol



Help i ddeall
datblygiad rhywiol
plant 5-11 oed



Mae gwybod sut i adnabod ac ymateb i i ymddygiad sy'n addas i blant 5-11 oed yn eich helpu i gynorthwyo datblygiad ymddygiad rhywiol y plant a'u hamddiffyn iach ac amddiffyn plant rhag niwed neu gamdriniaeth



Wrth i blant dyfu trwy'u blynyddoedd cynnar a datblygu i blentyndod hŷn, maent yn parhau i fynd trwy wahanol gamau datblygu. Gwyddom fod plant yn parhau i fod yn unigolion ac yn unigryw gydol eu plentyndod, ac mae ystod eang o ymddygiad sy'n cael ei gydnabod yn gyffredinol fel ymddygiad arferol ar gyfer oed a cham datblygiadol y plentyn

Nod y daflen yma yw eich helpu fel rhiant neu ofalwr trwy roi cyfarwyddyd a gwybodaeth i chi er mwyn i chi ddeall rhagor am y gwahaniaethau rhwng y darganfod rhywiol iach a disgwylidig yn natblygiad plant 5-11 oed, a'r ymddygiad amhriodol sy'n gallu niweidio eraill neu wneud plentyn yn fwy agored i beryglon.

Bydd plant o'r oed yma'n parhau i chwilio am wybodaeth a dealltwriaeth amdany'n nhw'u hunain a'r byd o'u cwmpas trwy'u chwarae. Byddant yn aml yn dangos diddordeb mewn beichiogrwydd, genedigaeth, rhyw a'r gwahaniaethau rhwng y rhywiau, a gall hyn fod yn rhan o'r broses o ddarganfod rhyw mewn modd iach a disgwylidig o ran datblygiad.

Er bod y rhan fwyaf o ymddygiad rhywiol ymhlith plant o'r oed yma'n ddisgwylidig, mae rhai mathau o ymddygiad yn destun pryder. Mae llinell gymorth Stop It Now! sef 0808 1000 900, yno i'ch helpu chi i allu cynnig cymorth a chefnogaeth wrth amddiffyn a chefnogi'r plant yma.

parentsprotect.co.uk
Llinell gymorth Stop It Now!
Am ddim a chyfrinachol
0808 1000 900

stop it now! UK & Ireland
Together we can prevent child sexual abuse

Adnabod ymddygiad plant 5-11 oed

Rydym wedi defnyddio fframwaith goleuadau traffig i'ch helpu i benderfynu a yw'r ymddygiad yn WYRDD, yn AMBR ynteu'n GOCH

Mae'r ymddygiad yma'n naturiol ac yn ddisgwyliedig

'Dyw hyn ddim yn golygu y byddech chi am weld yr ymddygiad yn parhau, ond mae'n rhoi cyfle i sgwrsio, dysgu ac esbonio beth sy'n addas

- Ymdeimlad cynyddol o breifatrwydd am ei gorff ei hun
- Cyffwrdd â'i gorff a dal ei organau rhyw ei hun
- Mastyrbio, gydag ymwybyddiaeth o breifatrwydd fel arfer
- Chwilfrydedd am organau rhyw plant eraill, gan edrych ar gyffwrdd plant sy'n gyfarwydd iddo, neu eu cyffwrdd
- Chwilfrydedd am rywioldeb, e.e. holi am fabanod, rhyw, perthnasoedd, gweithgareddau rhywiol
- Adrodd straeon neu ofyn cwestiynau gan ddefnyddio rhegfeydd, geiriau "budr" neu enwau rhannau preifat o'r corff
- Defnyddio ffonau symudol a'r Rhyngwrdd gyda phlant o'r un oed

Gallai'r ymddygiad yma fod yn destun pryder ac os yw'n parhau, gallai fod y tu hwnt i ffiniau ymddygiad diogel ac iach

Mae angen ymateb oedolyn amddiffynnol, cefnogaeth ychwanegol a monitro agos.

- Mastyrbio yn hytrach na mynd ati gymryd rhan mewn gweithgareddau eraill, yn breifat neu'n gyhoeddus neu gyda chyfoedion, a/neu achosi hunan- anaf
- Iaith, celf neu chwarae sy'n amlwg rywiol
- Cwestiynau cyson am rywioldeb er gwaethaf cael atebion
- Noethni cyson neu arddangos rhannau rhywiol o'r corff o flaen eraill
- Gwyllo neu ddilyn eraill yn gyson i'w gweld neu'u cyffwrdd
- Tynnu trôns plant eraill i lawr neu godi eu sgertiau yn erbyn eu hewyllys
- Yn gyson yn dynwared fflyrtio rhywiol y tu hwnt i'w oed, gyda phlant eraill neu oedolion
- Cyffwrdd organaurhyw / rhannau preifat anifeiliaid
- Defnyddio ffôn symudol a Rhyngwrdd yn agored neu'n ddirgel gyda phobl sy'n gyfarwydd neu'n anghyfarwydd iddynt. Gallai gynnwys rhannu manylion adnabod
- Ceisio gwneud unrhyw un o'r uchod yn y dirgel

Mae'r ymddygiad yma y tu hwnt i ffiniau'r hyn sy'n iac ac yn ddiogel

Gallai ymddygiad o'r fath fod yn arwydd bod angen amddiffyniad a chefnogaeth ar unwaith gan weithiwr gofal plant proffesiynol, e.e. ymwelydd iechyd, Meddyg Teulu neu weithiwr cymdeithasol. Fel cam cyntaf, gallech ddefnyddio llinell gymorth Stop It Now! i gael cyngor a chyfarwyddyd. Ffoniwch 0808 1000 900.

- Mastyrbio gorfodaethol (compulsive) neu hunan-niweidio, neu geisio cynulleidfa
- Datgelu camdriniaeth rywiol
- Bwlio cyson gydag ymosoddedd rhywiol
- Dynwared neu gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol, gan gynnwys ymddygiad rhywiol gyda phlant ieuengaf neu lai abl, e.e. rhyw drwy'r geg, cyfathrach rywiol
- i'w cyffwrdd neu i gyflawni gweithgaredd rhywiol
- Presenoldeb haint a drosglwyddir yn rhywiol
- Unrhyw weithredu rhywiol gydag anifeiliaid
- Defnyddio ffonau symudol a'r Rhyngwrdd i anfon neu dderbyn delweddau rhywiol

Ymateb i ymddygiad a welir mewn plant 5-11 oed

Isod rydym wedi cynnig enghreifftiau o sefyllfaoedd sy'n nodweddau categorïau ymddygiad Gwyrdd, Ambr a Choch. Rydym hefyd wedi cynnig ambell awgrym sut y gallech ymateb i ymddygiad o'r fath. Canllaw yn unig yw hwn, ac mae'n bwysig cofio hyd yn oed os yw ymddygiad yn y categori Gwyrdd, 'dyw hyn ddim yn golygu y dylai'r ymddygiad gael ei annog. Mae pob ymddygiad yn cynnig cyfle i sgwrsio â'r plentyn ynglŷn â'i gadw ef ei hun ac eraill yn ddiogel, a rhoi gwybod iddo eich bod chi'n rhywun sy'n fodlon gwrando. Mae'n bwysig ymateb yn ddiglyffro.

Mae bachgen 9 oed yn rhoi ei law i mewn ac allan o'i drôns wrth iddo ddarllen, pan fydd pobl eraill yn yr ystafell.

Ymateb i'r ymddygiad yma:

- Disgrifio'r ymddygiad di-eisiau'n eglur
- Esbonio bod yna adeg a lle mwy addas ar gyfer cyffwrdd â rhannau preifat y corff
- Tynnu ei sylw oddi ar y sefyllfa trwy ei symud i rywle arall

Wrth chwarae y tu allan, mae bachgen 9 oed yn gofyn i ddwy ferch 5 oed a fyddent yn cael rhyw ag ef, ac mae'n eu holi am gael gweld eu 'bronnau'.

Ymateb i'r ymddygiad yma:

- Disgrifio'r ymddygiad yn eglur
- Atgoffwch y plant pa ymddygiad sy'n briodol, a bod rhai rhannau o'r corff i fod i aros yn breifat
- Esbonio i'r plant nad yw ymddygiad y bachgen yn dderbyniol, a thrafod sut y gallai'r merched ymateb
- Tynnu eu sylw oddi ar y sefyllfa trwy eu symud i rywle arall

Mae merch 8 oed yn atal merch 5 oed rhag gadael ei hystafell wely, yn tynnu ei thrôns i lawr ac yn dangos ei rhannau preifat iddi. Mae'r ferch ieuengaf yn dychryn. Clywyd y ferch 8 oed yn defnyddio iaith rywiol.

Ymateb i'r ymddygiad yma:

- Disgrifio'i ymddygiad di-eisiau'n eglur
- Pwysleisio nad yw ei ymddygiad yn dderbyniol a'i fod yn effeithio ar bobl eraill
- Gwahardd yr ymddygiad
- Ystyried ceisio cyngor a chymorth oddi wrth weithiwr proffesiynol gofal plant, e.e. ymwelydd iechyd, Meddyg Teulu neu weithiwr cymdeithasol.
- Ffônio llinell gymorth Stop It Now! ar 0808 1000 900 i gael cyngor a chyfarwyddyd

Mae rhagor o wybodaeth ynglŷn â sut i amddiffyn plant rhag niweddau chamdriniaeth rywiol ar gael ar ein gwefan: stopitnow.org.uk Os oes gennych amheuaeth unrhyw dro, ceisiwch gyngor trwy ffonio llinell gymorth **Stop It Now!** ar **0808 1000 900**. I gael rhagor o wybodaeth am ddatblygiad rhywiol, addysg rhyw ac ymddygiad rhywiol iach, ewch i: Parents Protect yn parentsprotect.co.uk

Mae'r deunyddiau hyn wedi'u cynllunio ar gyfer rhieni, gofalywr ac oedolion amddiffynnol eraill. Ar gyfer deunyddiau a gynlluniwyd ar gyfer eu defnyddio gyda chan weithiwr proffesiynol, gweler Brook: brook.org.uk/index.php/traffic-lights